"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD;

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1890. [RHIF 32.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Beth all Crefydd wneyd i ddyn?—II	169
Y diweddar John James, Gellionen	170
Cipdrem ar rai o brif gyfnodau'r byd	172
Llith o Philadelphia	173
Y tair Efengyl gyntaf	175
Y Doctor Jenkin Jenkins	177
Taith o Donypandy i Cork	179
Llawlyfr yr Athraw	182
Ymweliad a'r Amerig (Parhad)	183
Y Cwrdd Blynyddol	185
Nodynau Gwasgarog	187
Manion a Hanesion	191
Marwgofion	192

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU:—T.H., Llwyn; J.D., Capelygroes; J.J., Llandilo; Rev. W.J., Llandyssul; D.L., Bwlch; J.R.T., Pontshaen; T.D., Pantydefaid; Mrs. W., Gracechurch.

☞ Anfoner pob gohebiaeth at y Golygydd,

J. HATHREN DAVIES,

CEFNCOED,

NR. MERTHYR TYDVIL.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Cefn* Post Office, ac yn enw J. H. Davies, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

CYMDEITHAS Y DYNION IEUAINC.

	£	s.	c.
Rev. T. Thomas, Pantydefaid	1	0	0
Friend	0	10	0
Friend, Llandyssul	0	5	0
Mrs. Evans, Mynach Arms, Cribin	0	2	0
	£1	17	0

Nid oes ond ychydig arian yn y Drysorfa, tra mae angen am lawer. Anfoned cyfeillion caredig eu cyfraniadau'n fuan. R. C. JONES, Ysg.

THE GRAMMAR SCHOOL, LLANYBYTHER.

HEAD MASTER:—REV. D. EVANS.

For further particulars, apply to Rev. D. Evans, Llanwnen, Llanybyther, R.S.O.

GWEITHIAU CHANNING.

GELLIR cael yr argraffiad rhad o'r uchod, yn rhad trwy y *post*, am 9c. yr un oddiwrth D. J. JONES,

MOUNT PLEASANT GARDEN, ABERDARE.

LLAWLYFR YR UNDODWR, PRIS 6CH.

Anfoner at D. Evans, Llanwnen, Llanybyther.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1890. [RHIF 32.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

BETH ALL CREFYDD WNEYD I DDYN?—II.

YN y llith hwn cawn ystyried beth y mae crefydd wedi ei wneyd hyd yn hyn. Wrth edrych yn ol dros hanes Cristionogaeth yn y gorphenol, nis gallwn lai na sylwi fod y cyfryw hanes yn dangos llu o gamsyniadau. Mae'r peirianwaith yn mhell o fod yn berffaith: mae'r dynion sydd wedi bod yn proffesu crefydd wedi cyflawnu'r gweithredoedd mwyaf ysgeler. Y mae sefydliadau crefyddol wedi bod yn rhwystr ar ffordd cynnydd a blaenfynediad, ac wedi bod yn erlid, ac y mae'r anmherffeithderau hyn i'w canfod heddyw i raddau helaeth. Mae hyn yn ffaith nas gellir ei gwadu, a dylid ar unwaith gydnabod hyny. Ond er gwaethaf yr ochr dywyll i'r darlun, y mae yna hefyd ochr oleu ac anrhydeddus, ac anfynych yr ydym ni yn gallu sylweddoli i ba raddau yr ydym yn ddyledus i grefydd am y sefyllfa wareiddiedig y mae'r byd ynddi heddyw.

Gadewch i ni fyned yn ol ryw ddeunaw cant o flynyddau i brif ddinas y byd yn yr amser hwnw, sef Rhufain, yr hon oedd ar y cyfryw amser yn y man uchelaf mewn gallu, dylanwad, a chyfoeth. Beth oedd cyflwr cymdeithas yn y ddinas? Ceisiaf ei ddesgrifio yn fyr.

Beth oedd sefyllfa y fenyw mewn cymdeithas? Yr oedd yn sicr yn isel. Yr oedd yn byw yn y caethiwed mwyaf, heb un math o iawnderau yn perthyn iddi, heb un llais yn llywodraethiad ei theulu, nac yn nygiad pethau yn y blaen o'r tu allan i'r aelwyd. Yr oedd ei chyflwr yn mhob ystyr yn un o'r fath iselaf a mwyaf diraddiol dychymygadwy.

Beth oedd sefyllfa'r plentyn? Nid oedd un cyssegredigrwydd yn perthyn iddo, ac yr oedd yn hollol yn llaw y tad i wneyd ag ef fel y

mynai. Gallai ei alltudio, ei werthu i gaethiwed, neu ei osod i farwolaeth, yr hyn y pryd hwnw a wneid yn gyffredin iawn. Nid oedd un teimlad o serch ac o gyfrifoldeb yn cael lle yn mynwesau y rhan fwyaf o'r tadau Rhufeinig.

Beth oedd sefyllfa foesol y fath gymdeithas? Yr oedd yn wael tuhwnt i bob desgrifiad. Yr oedd sefyllfa foesol y fenyw yn un nas gellir yn iawn ei desgrifio, ac am burdeb personol, yr oedd y fath beth i'r rhan fwyaf yn hollol anadnabyddus.

Yr oedd y rhan fwyaf o'r dosparth iselaf yn byw yn y caethiwed mwyaf ofnadwy, yn enwedig felly y gwasanaeth-ddynion. Nid oedd yn perthyn iddynt un iawnder ag oedd yn rhaid i'r meistr ei barchu. Gallent eu gwerthu, eu poenydio, ac hyd y nod eu gosod i farwolaeth, heb gael eu galw i gyfrif am hyny. Ceir hanesyn am un dyn ag oedd wedi addaw ei ryddid i'w gaethwas, ac wedi tori ei addewid, ac fod y caethwas, mewn canlyniad, wedi ymgynddeiriogi gymmaint, fel y lladdodd ei feistr, ac o herwydd hyn, yn unol â gofynion y gyfraith annghyfiawn, fe osodwyd holl gaethweision y dinesydd i farwolaeth.

Beth oedd natur eu chwareuon a ffynnonell eu dyfyrwch? Un o'r cyfryw oedd y chwareuaethau yn y Coliseum, a'r prif rai o'r chwareuaethau hyn oedd ymladdfeydd anifeiliaid, yn y rhai yr oedd pethau o'r natur fwyaf barbaraidd yn cael eu cyflawnu; anifeiliaid gwylltion yn llarpio eu gilydd, ac yn llarpio dynion, a dynion yn gosod eu gilydd i farwolaeth. Yn edrych ar y chwareuaethau hyn, yr oedd miloedd o bob dosparth o gymdeithas; edrychent arnynt gyda phleser digymmysg; rhoddent fanllefau o gymmeradwyaeth pan y gwelent un anifail yn llarpio'r llall. Yr oedd y chwareuaethau hyn yn parhau am ddiwrnodau, ac weithiau hyd y nod am wythnosau, ac nid oedd y dyddordeb gymmerid ynddynt yn ddim llai ar y diwedd nag ar y dechreu.

Dyma, yn anmherffaith, oedd sefyllfa y ddinas hon ar ddechreu'r cyfnod Cristionogol. Yr oedd tlodi yn uchel ei ben, ac yr oedd y golygfeydd a geid yn mysg trigolion y parthau iselaf a thlottaf yn druenus i'r eithaf, ac nid oedd un ymdrech yn cael ei gwneyd (oddieithr gan ryw ychydig o bersonau unigol yma a thraw, fe ddichon) i leihau y tlodi ac i leddfu y dyoddefiadau hyn. Nid oedd un sefydliad daionus a dyngarol i'w gael yn un man o'r ddinas.

Yn y rhan nesaf o'r llith hwn, caf gymharu hyn â rhyw ddinas yn y dyddiau presenol. A. B.

Y DIWEDDAR JOHN JAMES, GELLIONEN.

Yn Yr Ymofynydd am Mai diweddaf darllenais gyda hyfrydwch neillduol gofiant y diweddar Barch. John James, Gellionen—un o'r hen dadau Undodaidd yn Neheubarth Cymru—gan y Parch. R. J. Jones, A.C., Aberdar. Rhy fyr o lawer ydyw, ac er byred, nid yw yn

hollol rydd o gamgymmeriadau. Nid wyf yn beio fy nghyfaill Mr. Jones am hyn. Gwnaeth yn rhagorol dda ac ystyried cyn lleied y defnyddiau oeddynt ganddo at ei wasanaeth. Nis gwn am neb a allasai wneuthur cystal.

Nid yn y flwyddyn 1777, nac ychwaith yn y flwyddyn 1778, y ganed Mr. James, ac nid 88 oedd ei oedran pan y bu farw, ond 85, oblegyd ganed ef yn y flwyddyn 1779, ac, yn ol tystiolaeth ei fam, ar ddydd Mercher Lludw. Fy awdurdod dros hyn ydyw llythyr Dafydd ei frawd, yr hwn sydd yn awr o'm blaen, dyddiedig y 10fed o Hydref, 1846. Tebyg fod Mr. James, ryw amser cyn hyn, wedi ysgrifenu at ei frawd, er cael gwybod ei oedran, ac mai y llythyr hwn oedd yr atebiad. Wele yn canlyn gymmaint o'r llythyr ag sydd yn perthyn i'r mater mewn dadl yn llythyrenol gywir:—

. . . . . "fy niben wrth yscrifenu iw i hysbysu i chwi gymaint ag a allaf fi wybod am eich oedran. Yr oedd ein tad gwedi gosod ein hoedran ni i gid ar fibl ein mam ag fe ddarfu i chi fy hala i a hwnw iw gyfro i gaerfyrddin ag fe dynodd y cyfrwr y dail gwynon ymaith i gid lle yr oedd ein hoedran i gid ag fe osododd ddail eraill yn ei lle Cymmaint ag allaf i wybod yn awr am eich oedran iw wrth fy oedran fy hynan yr oeddwn i gwedi gosod hwnnw ar fy mibl fy hynan mi gefais i fy ngeni y dydd diwethaf o Awst 1776 a chithau ym mhen dwy flynedd a haner hyny yw 1779 yn ol fel y clyweis i fy mam yn dweyd i chi gael eich geni ar ddydd mercher llydw ag yr wyf fi gwedi edrych y calendar ar dydd cyntaf or grawys sef dydd syl ynyd y flwydd honno oedd y 17 o chwefror a dydd mercher gwedyn oedd yr 20fed . . . . . Hyn yn fyr oddi wrth eich carediccaf frawd

"David James"

Gwel y darllenydd fod David James hytrach yn gymmysglyd yn mherthynas i'r *calendar* y bu yn ymgynghori ag ef, ond dichon, er hyny, fod tystiolaeth ei fam yn gywir, ac mai dydd Mercher Lludw y ganed John James.

Ystyr y gair "Garawys" neu "Grawys" nis gwn, ond wrth Grawys yr ydys yn deall yr yspaid o ddeugain diwrnod yn uniongyrchol o flaen y Pasc, dros yr hwn amser yr arferai yr hen Gristionogion ymprydio. Y dydd cyntaf o'r Grawys a elwid Mercher Lludw, am y rheswm, yn debygol, yn ol yr arfer yn yr Eglwys Babaidd, y teflid lludw ar benau y bobl a elent yn ostyngedig ac edifeiriol i ddwyn pennyd am eu pechodau. Mawrth Ynyd oedd y dydd Mawrth uniongyrchol o flaen Mercher Lludw. Fel y canlyn y dywed Thomas Richards, yn ei Eiriadur Cymraeg a Saesneg am y gair, "Ynyd":—"Ynyd, *Shrovetide.* Probably from the Lat. Initium, the word Grawys [Lent] being understood, Ynyd y Grawys, Initium Quadragesimæ;" hyny yw, Dechreu'r Grawys. Hynyma er cynnorthwyo yr annghyfarwydd i ddeall y *calendar* neu'r amseroni. Yn ol cyfrif David James, os cyfrif o hono, yn y dernyn uchod o'i lythyr, Mercher Lludw yn y flwyddyn 1779 oedd yr 20fed o Chwefror; ond pa beth am y cysgrif neu'r copi ardystiol canlynol o gofrestriad bedydd Mr. James?—

"John son of James Evan was Christened Febry 21st Δ779. Registered by Owen Bowen."

The above is a true copy from the Register of Baptisms in the parish of Llangeler in the county of Carmarthen. Witness my hand this 4th day of January 1828. M. Evans, Vicar of Llangeler.

Os ganed Mr. James ar yr 20fed o Chwefror, cafodd ei fedyddio dranoeth; ac os oedd yn faban diwryg, diwryg fu tra fu byw, er iddo fyw yn hen, nid annghredadwy o gwbl yw iddo gael ei fedyddio gyda phob brys, oblegyd yr amser hwnw credid yn gyffredinol mai peryglus iawn oedd marw o neb heb gael ei fedyddio, a bedydd offeiriadol a ystyrid y mwyaf effeithlawn. Dim rhagor ar hyn o bryd.

Thos. Thomas.

CIPDREM AR RAI O BRIF GYFNODAU'R BYD.

Pan oedd amser mewn babandod, 'roedd yn gyfnod hynod iawn,
Cyn i'r heulwen dlos ddysgleirio, cyn i'r lloer ei llunio'n llawn—
Cyn bedyddio sêr y nefoedd, cyn rhoi'r lluoedd yn eu lle,
Cyn eu galw i fodolaeth, nag un dalaeth tan y ne'.

Faint o filoedd o gyfnodau dreigliodd cyn i'r ddae'r i ddod?
A oedd sylwedd yn bodoli, neu ryw lun o bêl yn bod?
Nis gall deall dyn amgyffred am gyfnodau boreu'r byd,
Gallu'r meddwl yn rhy egwan, megys baban yn ei gryd.

Pan oedd Adda yn ei drallod, cyfnod hynod ydoedd hwn,
Wedi cael ymgeledd gymhwys, byw'n helbulus gafodd, gwn;
Cael y gwar anifail gwirion i'w wasanaeth wnaeth cyn hir,
Magu deadelloedd beunydd, er gwneyd defnydd da o'i dir.

Dechreu coethi, gloewi gwledydd, morio'r weilgi llydan llaith,
Ac addoli gwaith eu dwylaw, fuwyd am ganrifoedd maith;
Dechreu planu, adeiladu, llunio deddfau mwynion mad,
A gwareiddiad mewn gwirionedd aeth i'w llysoedd er lleshad.

Pan oedd Noah'n dechreu nofio, nid ä'n ango'r amser hyn,
Dyma hynod gyfnod newydd—Noah'n llywydd ar y llyn;
Rhwygwyd holl ffynnonau'r dyfnder, agor wnaeth y nefoedd wen,
Mawr yw'r son a mwy yw'r syndod am y Bôd oedd yno'n ben.

Annghofiasant, er eu syndod, am bob cyfnod chwerw trist,
Pan ddaeth angel lawr i yngan am genedliad Iesu Grist;
Dysgodd Ef y ffordd i'r bywyd, diwyd fuodd ar ei daith,
Gan ddyheu am lwydd i'w frodyr draw i dragwyddoldeb maith.

O ! 'r fath gyfnod ar drigolion—llosgi dynion wrth y stanc,
Nid rhyw yspryd fuodd ydyw, wincia heddyw gan ei wanc ;
Er pob ymgyrch gan wareiddiad, wrth naill lygad ydyw dyn,
Nid yw'r llall yn gallu canfod hyll fyfyrdod ffiaidd wŷn.

Pwy all ddirnad p'lun fydd etto 'n mhen dwy filiwn yn y bla'n,
Pan bo'r belen fach ddaearol wedi myn'd yn ulw dân ?
O am nerth i loewi'm buchedd tra bo'm heddyw yma'n byw,
Fel y gallom yn dragwyddol ganu'n dawel gyda Duw.

Pennant Rhydowen. S. T.

LLITH O PHILADELPHIA.

1,817, Mt. Vernon St., 233, So., 4th St., Philadelphia,

Mehefin y 9fed, 1890.

Anwyl Mr. Jones,—Fel arferol, cefais foddlonrwydd mawr wrth ddarllen Yr Ymofynydd am Mai, yn enwedig y cofiant byr o'r enwog John James o Gellionen. Yr oedd y rhan fwyaf o amgylchiadau ei fywyd y cyfeirir atynt ynddo yn hollol anhyspys i mi. Mae cof genyf am Mr. James ei fod ar droion yn dyfod i bregethu i Dy Cwrdd Pantydefaid. Yr oeddwn I ar y pryd rhwng 9 a 12 mlwydd oed, ac yn rhy ieuanc i amgyffred rhagoriaeth ei ddoniau neu ei uwchafiaeth fel pregethwr. Un peth nodedig a berodd i mi lawer o syndod oedd, "O ba le y cafodd y *llu aneirif o eiriau* ag yr oedd yn eu traddodi mor gyflym ?" canys yr oeddynt (fel y clywais fy mam yn dywedyd) "yn llifo dros ei wefusau fel ffrwd yr afon." Yr wyf yn cofio yn neillduol am un prydnawn dydd Sul pan oedd yn pregethu yno, gorfodwyd goleuo'r canwyllau hir amser cyn iddo derfynu ; yr oedd yno dorf fawr wedi dyfod i'w wrando o gryn bellder o ffordd, ac yn ddiau, gwn yn awr mai hwyr iawn yn y nos ydoedd ar lawer o honynt yn cyrhaedd eu cartrefi. Yr olwg olaf a gefais ar Mr. James oedd yn y flwyddyn 1837, pan oedd ar ymweliad â Richard Rees (o Abertawe) a'i ddwy chwaer, Hannah a Sarah, yn y Gelligron.

Ond i ddyfod yn ol at Yr Ymofynydd. Cefais wir hyfrydwch hefyd wrth ddarllen erthyglau "H." a "T.J." ar "Grefydd" ac ar "Bregethu Crist;" y mae y ddwy yn gorlifo â sylwadau doeth a synwyrol, ac yn cyfateb yn hollol i'm credo a'm teimladau I. Mae'r Ymofynydd yn deilwng o'i werthfawrogi am ei hyfforddiadau gwerthfawr yn llwybrau dyledswydd, a dylai gael y gefnogaeth helaethaf a mwyaf parod, a pheidier colli golwg ar y cynnorthwy sylweddol y mae arian yn ei roddi mewn cyssylltiad fel hwn, ac yn enwedig pan mewn ffurf o *flaendal !* Yn sicr, mae tair ceiniog y mis yn rhesymol iawn am fisolyn coeth ac addysgiadol, a dylai fod ei radlonrwydd a'i ragoroldeb yn

ddigon i dueddu pawb a fedrant werthfawrogi pethau fel hyn i danysgrifio am dano. Yn ddiddadl, bydd iddynt dderbyn lles mawr, ac hyrwyddir eu camrau tua "Gwlad y Goleuni." Hyfryd iawn fyddai genyf glywed fod ei gylchrediad yn cynnyddu o fis i fis. Caraswn weled helaethach dyfyniad o bregeth y Golygydd yn y Cwrdd Chwarterol: cododd flâs hwylus arnaf wrth ei ddarllen; ond yn ei fyrder cefais siomiant mawr ac annysgwyliadwy.

Rhag bod yn *rhy* faith, âf yn fy mlaen at *eich ymholiad chwi* (y gohebydd "T.C.U.") Hwyrach i mi eisoes roddi i chwi ran o'r hyspysrwydd canlynol:—Dyma blant y Parchedig Josiah Rees o Gellionen:—Or wraig gyntaf, un ferch, Mary Rees, a anwyd Rhagfyr 21, 1767. Priododd yn 1783 â John Richards o White Rock, gerllaw Abertawe, yr hwn a anwyd Rhagfyr 19, 1750 neu 1760. Hwy oeddynt fy nhadcu a'm mamgu o ochr fy mam. O'r ail wraig—1. Owen Rees, llyfrwerthwr yn Pater Noster Row, Llundain, ac o'r *firm*, "Longman, *Rees*, Orme, Brown, Green, a Longman." Sengl ydoedd. 2. Josiah Rees, a thad Dr. George O. Rees. Fe briododd Josiah Rees yn "Calcutta" (?) ond nis gwn enw ei wraig, na sawl un o blant a gafodd; ond rhagor ar hyn yn ol llaw. 3. Dr. Thomas Rees o Lundain, yn briod, a dau o blant, ond nis gwn eu henwau. 4. Catharine Rees—dim o'i hanes hi. 5. Richard Rees, o Abertawe, yn briod ag estron, Italaidd yn debygol, ac heb blant. 6. Hannah Rees, Gelligron. Sengl. 7. Sarah Rees, Gelligron. Sengl.

I ddyfod yn ol at Josiah Rees: y mae gwahaniaeth yma rhwng cof fy chwaer a'm cof I. Dywed fy chwaer mai "marchnadwr sidan" ydoedd yn *Calcutta*, ac iddo briodi yno wraig enedigol o'r lle, ac iddo orfod ffoi o herwydd yr *Asiatic Cholera*. Yr argraff ar fy meddwl I yn wastad oedd, mai "arianydd" ydoedd, ac yn cartrefu ar Ynys Malta, yn Mor y Canoldir, ac iddo orfod ffoi oddiyno o herwydd y pla. Gan fod fy chwaer yn hynach nâ mi, ac am ei bod yn Ngelligron yr amser y daeth Josiah Rees a'i deulu i lawr yno ychydig ar ol iddynt dirio yn Llundain, mae yn debycach fod ei chof hi yn fwy cywir. Dygwyddodd hyn oddeutu'r flwyddyn 1828. Efallai ein bod ein dau yn iawn, ac i Mr. Rees ffoi o Galcutta i Malta, ac o'r fan hono i Gymru, o herwydd yr oedd y *cholera* yn Bengal yn 1817; yn Astrakhan, ar For y Caspian (*European Russia*) yn 1823; ac yn Orenburg, E.R., yn 1828; ac oddiyno ymdaenodd dros Ewrop erbyn y flwyddyn 1832. Un peth ag sydd yn fy nhueddu at Calcutta ydyw, i Mr. Rees *brynu rhyddhad* mammaeth Hindostani o'r enw Bena, yr hon a ddaeth gyda'r teulu i Gymru. Yr oedd yn lodes (*Cardiganshire*) chwech troedfedd o daldra, a gorfodwyd iddynt osod cadair a gobenydd wrth odreu'r gwely er gorphwysfa yn y nos i'w thraed, a phrynu chwech pâr o esgidiau iddi yn Llundain o herwydd eu maintioli annghyffredin, ac hefyd yr anhawsdra i gael rhai gweddus iddi yn nghymmydogaeth y Gelligron. Druan fach! ni ddarfu iddi fyw ar ol hyn fawr o amser: syrthiodd mewn cariad â *coachman* y Gelligron, a chollodd ar ei synwyrau. Pallodd ymadael gyda'r teulu o'r Gelligron heb y *coachman*, a gorfodwyd iddo ef fyned gyda hi a'r teulu i Lundain, lle ei gosodwyd mewn gwallgofdy, ac yno y bu farw.

Mae amgylchiad arall yn fy nhueddu I i feddwl mai "estron" oedd Mrs. Rees: gadawodd Bena i un o'r plant gwympo a chael dolur, a rhoddodd Mrs. Rees iddi *slap* yn ei gwyneb â chefn ei llaw (nid arferiad Ewropeaidd oedd hyn). Beiodd morwynion y Gelligron Bena am ymostwng i'r fath driniaeth, &c. Atebodd Bena, "Onid ydyw Mrs. Rees yn ceryddu ei phlant ei hun pan wnant ddrygioni, ac *etto y mae yn eu caru*; a chan ei bod yn fy ngharu inau hefyd, mae yn fy ngheryddu pan y gwnaf ddrwg. Yr oedd y lodes yn hynod o ffyddlawn a serchus, ac yn cael ei chyfrif fel un o'r teulu. Nid oedd byth son ganddi am gyflog neu dâl am ei gwasanaeth. Ni wisgai ddim ond dillad gwynion fel yr eira o'r copa i'r gwadn, a'i hunig angen oedd cael arian i brynu *beads* i'w gwddf a *jewellery*, ac o hyn cafodd ei chyflawn ran, o herwydd yr oedd y teulu'n gyfoethog iawn. Ar amser y *cholera* cauasant eu hunain am ddwy wythnos yn y *ty* heb groesi'r trothwy, o herwydd gellid gweled drwy'r ffenestri gannoedd yn syrthio yn feirw ar yr heolydd—*bob dydd!!!*

Nis gallaf roddi enw Mrs. Rees, na nifer y plant na'u henwau, ond yn unig George O. Yn ei ddyddiau olaf yr oedd efe yn un o'r *consulting physicians* yn Guy's Hospital, a gwelais yn ddiweddar mewn newyddiadur o Loegr ei fod wedi cael ei bennodi yn un o brif feddygon y Frenines. Un o'i frodyr oedd yn *civil engineer*, a chafodd ei ladd gan *locomotive* pan ar y *track* yn profi cymhwysder y llinell. Yr oedd yn 19 mlwydd oed pan ddygwyddodd hyn.

Mewn serch a chariad,

THOS. R. DAVIES.

Y TAIR EFENGYL GYNTAF.*

"NID oes dyben ar wneuthur llyfrau lawer;" felly y dywed awdwr Llyfr y Pregethwr. Ond os oedd y geiriau hyn yn wir y pryd hwnw, maent yn llawer iawn mwy felly pan y cymhwysir hwynt at yr oes bresenol. Y mae llyfrau o bob math a ffurf yn cael eu dwyn i fodolaeth bob blwyddyn, y rhai ydynt yn ymdrin â phob math o bynciau dychymygadwy; ac y mae yn syndod i feddwl y fath nifer o'r llyfrau hyn sydd yn ymdrin â'r Beibl yn unig. Y mae mwy o lawer o lyfrau yn cael eu hysgrifenu ar bynciau Beiblaidd nag ar bynciau ereill; ac y mae yn rhaid dweyd y gellid hebgor llawer o'r llyfrau hyn, ac na fuasai'r byd un mymryn yn nes yn ol heddyw pe na fuasent erioed wedi eu hysgrifenu, o herwydd y prif amcan gan luaws o awdwyr y llyfrau hyn ydyw, nid ymdrechu cael allan y gwirionedd am y Beibl,

---

* *The First Three Gospels: Their Origin and Relations*, by Prof. J. E. Carpenter, M.A. Published by the Sunday School Association, Essex Hall, London. Price 3s. 6d.

neu y gwirionedd am y pynciau sydd yn tarddu allan o'r Beibl, ond yn hytrach attegu (*to prop*) yr hen syniadau, a gwylio na fydd un goleuni newydd gwahanol i'r hyn a ddywedir am dano yn y gyffes ffydd yn tywynu ar feddyliau dynion yn ei gylch. Ond nid ydys i feddwl, er hyny, mai dyma yw natur yr holl lyfrau sydd yn ymdrin â phynciau Beiblaidd. Yn y gwrthwyneb, y mae genym lenyddiaeth ardderchog yn y cyfeiriad hwn—llyfrau ydynt wedi eu hysgrifenu gan ddynion, unig amcan y rhai oedd cael gafael yn y gwirionedd, gan nad beth oedd, ac y mae ymddangosiad pob llyfr o'r fath hyny yn gaffaeliad nid bychan i'r byd crefyddol. Am y rheswm hwn, nis gellir peidio cyfeirio at y llyfryn bychan sydd wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar gan y Proff. Carpenter, trwy gyfrwng Cymdeithas yr Ysgol Sul, ar y tair Efengyl gyntaf.

Fel y dywed yr awdwr yn ei ragymadrodd, "y mae y llyfr wedi ei amcanu ar gyfer y dosparth hwnw nad ydynt yn gyfarwydd â hanes ac â dull beirniadaeth Feiblaidd," ond y rhai ydynt yn dymuno am fwy o wybodaeth am ddechreuad a tharddiad—am ragor o wybodaeth yn nghylch yr Efengylau yn gyffredinol. Mae hwn yn ddesgrifiad lled gywir o amcan y llyfr. Y mae wedi ei fwriadu ar gyfer y sawl sydd yn foddlon ffwdanu, ac ymdrechu, ac astudio, ac i unrhyw ddosparth arall y mae y llyfr yn ddiwerth. Y mae y ffaith fod yr argraffiad cyntaf eisoes bron wedi ei werthu yn brawf nad yw y dosparth hwn yn anaml, a phe buasai ei bris ychydig yn is, nid oes amheuaeth na fuasai ei gylchrediad yn llawer mwy.

Y mae gofod yn pallu i mi wneyd sylw hirfaith o'r llyfr yn yr erthygl hon. Digon yw rhoddi rhyw fraslun byr o'i gynnwysiad. Yn y bennod gyntaf, desgrifir cyflwr a safle yr Eglwys Gristionogol yn ystod y blynyddau cyntaf o'i hanes, yn nghyd â natur y cyfeiriadau a geir mewn llyfrau ereill at yr Efengylau yn ystod yr un cyfnod; yna, ceisia nodi allan y berthynas sydd rhwng y tair Efengyl gyntaf a'r pedweryddl, y dylanwadau a'r amgylchiadau a roisant fodolaeth i'r Efengylau cyntaf, y dylanwad oedd gan draddodiadau i gyfnewid ffurf allanol pethau, dylanwad y syniad a goleddid am y Messiah, y cyflwr meddwl yr oedd dynion ynddo gyda golwg ar y gwyrthiau: y mae yr holl bethau hyn yn cael eu trin yn fanwl cyn yr â yn mlaen at yr Efengylau. Trinir yr Efengylau ar wahan, a cheisir cyfrif am y gwahaniaethau a'r tebygolrwydd sydd rhyngddynt. Nid yw hyn, wrth gwrs, ond yn unig yn rhoddi syniad anmherffaith i'r darllenydd am gynnwysiad y llyfr. Am y modd y mae'r pethau hyn yn cael eu trin, rhaid i'r darllenydd fyned i edrych drosto ei hun.

Y mae un peth i'w weled yn amlwg iawn yn y llyfr, sef ei fod wedi cael ei ysgrifenu gan un sydd am gael gafael yn y gwirionedd, a dyn o'r fath yn unig sydd yn addas i drin pwnc o'r fath ag yw hwn, o herwydd nid yw ein gwybodaeth am y Beibl etto ond cyfyng ac anmherffaith iawn, a'r unig ffordd i helaethu ein gwybodaeth am dano ydyw trwy fod dynion diduedd a diragfarn yn chwilio i fewn iddo. Y mae y Beibl (pob rhan o hono), yn enwedig yr Efengylau, wedi cael eu derbyn hyd yn hyn fel oraclau anffaeledig, yn y rhai nas gall fod un

camsyniad, fel yr ydym yn barod i feddwl weithiau, wrth glywed dynion yn siarad am dano, nad oes dim yn rhagor i wybod am dano; ond mewn gwirionedd, nid ydys ond megys wedi dechreu cael allan ei wir natur. Pan yn myfyrio ar yr Efengylau, nid oes dim yn fwy cyffredin na bod dynion yn treulio llawer o amser i geisio cyssoni dywediadau croes i'w gilydd, yn nghyd â gwahaniaethau ereill, y rhai nas gellir eu cyssoni, heb wneyd cam dybryd â'r gallu dychymygol. Pan yn myfyrio'r Efengylau, fe ddylem gofio nad oedd y sawl a'u hysgrifenodd ond dynion anmherffaith, agored i wneyd camsyniadau, fel y mae yn amlwg eu bod wedi gwneyd lawer o weithiau. Fe ddylai pob un sydd yn chwilio yn ddifrifol am y gwir mewn cyssylltiad â'r pwnc hwn gymmeryd hyn i ystyriaeth, ac yna ceisio, mor bell ag y gall, cael allan yr achosion o'r camsyniadau hyn, ac yna, felly i weithio ei ffordd yn ol at y berson oliaeth sydd o'r tu cefn iddynt oll. Ac i bob un sydd am wneyd hyn, nis gall y llyfr dan sylw lai na bod o help mawr.

Yr wyf wedi dweyd mai llyfr i fyfyrwyr ydyw. Gallaf ddweyd yn mhellach ei fod, o ran iaith ac arddull, yn syml a dealladwy. Y mae bywyd yn anadlu trwyddo, fel y mae y darllenydd yn dod i deimlo ei fod yn darllen llyfr a ysgrifenwyd gan ddyn sydd â'i holl fywyd yn y gwaith. I bob athraw yn yr Ysgol Sul sydd yn caru gwneyd ei waith yn drwyadl, i bob un sydd yn dymuno darllen yr Efengylau er mwyn eu deall, yn ogystal ag er mwyn adeiladaeth ysprydol, y mae y llyfr yn un tarawiadol iawn, ac nis gall y cyfryw wneyd dim yn well na'i feddu.

PHILOS.

Y DOCTOR JENKIN JENKINS.

Athraw yn Ngholeg Caerfyrddin, 1757—99.

MAE yn anhyspys pa bryd ac yn mha le y ganwyd y Dr. Jenkins. Y cyntaf peth a wyddom am dano yw iddo gael ei addysg yn y Coleg Presbyteraidd, y pryd hwnw yn Llwynllwyd, dan ofal y "duwiol" Vavasor Griffiths, a hyny rywbryd cyn 1710, gan fod y coleg yn y flwyddyn hono wedi ei symmud i Haverfordwest, ac nid ydys yn cael enw y Dr. Jenkins fel un o'r myfyrwyr yno. Tebygol iddo fyned o'r Llwynllwyd i ryw goleg yn Lloegr neu Scotland, gan mai yn 1747 y cafodd ei urddo, a hyny yn Llanfyllin (*Dyddiadur* Phillip Pugh.) Dywed y Dr. Rees o Abertawe ei fod yn derbyn arian, fel gweinidog Llanfyllin, o'r Presbyterian Fund o 1751 hyd 1759. Tra yn Llanfyllin, bu yn athraw poblogaidd yn yr icithoedd clasurol, ac yn mhlith ei ysgolheigion boreu ceir enw y Dr. Abraham Rees (1743—1825), yr hwn a fu amryw flynyddau dan ei ofal cyn symmud i Lundain i barhau ei efrydiaeth yn Hoxton o dan Dr. David Jenkins (Dr. Thomas in Dr. Beard's *History of Unitarianism in its actual condition.*) Yn 1759 y symmudodd i Gaerfyrddin, pan y daeth yn athraw *grammar school*

(ysgol mewn cyssylltiad â'r Coleg, dybiwn, ac nid *grammar school* y dref), ac yn athraw cynnorthwyol yn y Coleg Presbyteraidd, y Parch. Samuel Thomas yn brif athraw. Yn 1764, yn herwydd henaint a methiant Mr. Thomas, syrthiodd yr holl ddyledswyddau ar Dr. Jenkins (*Mon. Repos.* 1827, t. 693; nodyn yn *Telyn Dewi.*) Bu farw Mr. Thomas Medi 7, 1766, yn 74 oed. Yn y blynyddoedd rhwng 1759 a 1779, pasiodd 81 o fyfyrwyr trwy'r coleg, a chytunir ar bob tu eu bod wedi eu haddysgu yn dda; "ond," ebe Dr. Rees (*His. Noncon. in Wales*) "dim ond rhyw bedwar neu bump o'r oll a ymsefydlasant fel bugeiliaid ar eglwysi uniawngred Cymreig. Sefydlodd yr amlafrif gyda chynnulleidfaoedd Ariaidd yn Lloegr, a chymmerodd rhai i fyny alwedigaethau bydol." "Ac," meddai Dr. Rees yn mhellach yn ei *Eglwysi Annybynol* (I. 262, 274), "yr oedd Dr. Jenkins, fel yr ymddengys, yn un o'r ysgolheigion goreu yn ei oes. Ariad oedd o ran cred, a dywedir ei fod yn mhell o feddu y difrifoldeb a'r duwiolfrydedd a nodweddai yr hen Ymneillduwyr a'r Puritaniaid. . . . Mae yn hyspys hefyd fod y myfyrwyr, yn ei amser ef, yn Nghaerfyrddin yn nodedig am eu hannghrefyddolder." Gallwn feddwl fod llawer iawn o ragfarn yn cael ei ddangos yn y dyfyniadau hyn. Mae y dyfyniad olaf wedi ei newid a'i gryfhau (the wish being father to the thought, feallai) o'r hyn oedd neu yw yn yr *History of Nonconformity in Wales.* Yno, t. 496, dywed Dr. Rees, "The celebrated David Davis of Castellhowell complains that he had lost most of his serious thoughts during his time at the academy." At David Davis yn unig y mae hyn yn cyfeirio, ac am D.D. y mae yn *exaggeration* ac yn gamddarluniad. Dyma fel y dywed D.D. :—

Dyfyrwch gwag a dull y dre
A droes fy enaid gwan o'i lle;
Mi ais gyda rhwysg fy ie'nctyd
Dros dro i adael Duw yn ynfyd.—*Ffarwel i'r byd a'r Eglwys.*

Nid yw yn ymddangos i ni fod y geiriau hyn yn cyfeirio o gwbl at yr athraw a'i ddylanwad, ond yn hytrach at "ddull y dre'," yr hwn sydd bob amser y fath demtasiwn i ddyn ieuanc wedi ei ddwyn i fyny yn y wlad ar ol myned o gyrhaedd dylanwadau arferol cartref. Ond mwy na hyny, y mae D. D. yn cyfeirio yn y geiriau mwyaf parchus at ei hen athraw yn ei "Ffarwel i Gaerfyrddin," lle y dywed :—

Ber athraw mwynaidd odiaeth,
A roddi fawr wybodaeth,
Rhaid in' dros fyth dy adael di,
A myned i alltudiaeth.

Ni chawn ni hwyr a borau,
Mwy glywed y doeth eiriau,
A draetha'th dafod di fel mel
Am gyfraith arail moesau.

Ffarwel hyfforddwr union,
A mwyn geryddwr tirion,
Ac ni a'th barchwn di fel tad
Tra paro gwa'd y galon.

P'le byna' bo ni'n rhodio,
Mewn pellder wedi 'mado,
Ni chaiff dy wersi, oreu ffrynd,
Tra byddom, fyn'd yn angof.—1768.

Yn ei "Hanes Crefydd yn Nghymru," fe ddywed yr Athraw David Peter iddo fod yn ddefnyddiol iawn am lawer o flynyddau.

Dr. Thomas Rees o Lundain a ddywed yn ei "History of Carmarthen College :"—"Yr oedd llawer o honynt (sef o'r 81 myfyrwyr) trwy eu cyssylltiadau teuluaidd yn Annibynwyr, a daethant yn weinidogion cynnulleidfaoedd Calfinaidd. Ond yr oedd yn beth hollol hyspys yn y Coleg fod amryw o'r myfyrwyr wedi coleddu syniadau Ariaidd; ac o'r cyfryw, yr ydys wedi cael 25 wedi sefydlu fel gweinidogion cynnulleidfaoedd Presbyteraidd, yn proffesu yr opiniynau hyny."

Yn 1772, yr oedd un-ar-bymtheg o fyfyrwyr o dan addysg gyda Dr. Jenkins, ac yn derbyn arian oddiwrth y Bwrdd Presbyteraidd. Ymddengys fod ganddo ysgolheigion ereill hefyd, rhai yn parotoi ar gyfer gweinidogaeth yr Eglwys Sefydledig, a rhai ar gyfer galwedigaethau bydol (Jeremy's *History of the Presbyterian Board.*)

Gadawodd Dr. Jenkins y Coleg yn 1779 o herwydd rhyw gamddealltwriaeth nad yw yn amlwg beth. Awgrymiad rhai yw fod y Bwrdd yn awyddus i'r Dr. gael cynnorthwywr, ond nad oedd efe ddim yn foddlawn ar y sawl a gynnygid iddo. Symmudodd Dr. Jenkins o Gaerfyrddin i Lundain, lle y tybir iddo farw yn fuan wedi'n.

T. C. U.

TAITH O DONYPANDY I CORK.

Mr. Gol.,—Dyma fi yn rhoddi ychydig o hanes y daith uchod o flaen eich darllenwyr. Mae gan ddynoliaeth lawer iawn o wahanol ddulliau i fyw yn y byd, ac yn mhob man lle y bum I yr oedd y diodydd meddwol a'r myglys yn gymmeradwy iawn.

Pembroke Dock oed l y lle cyntaf a dynodd fy sylw I at allu meddyliol mawr dyn. Cefais ganiatad i fyned drwy y *dockyard*, lle yr oedd tair rhyfel-long fawr ar waith. Yr oedd yno ddwy fil o ddynion yn gweithio. Yr oedd un o'r llongau yn agos bod yn barod, ac yn mesur 380 o droedfeddi o hyd wrth 75 o led, ac yn pwyso, meddent hwy, 14,150 o dunelli, a'i nerth yn gyfartal i eiddo 16,000 o geffylau. Yr oedd yno beirianwaith at bobpeth—hyd y nod at hogi y llawlif; a thrwy gymhorth peiriant gellid symmud tunell o bwysau megys dim. Wrth sefyll ac edrych ar yr holl bethau hyn yn gweithio mor ddidaro,

gallwn weled dyn yn fôd mawr iawn, ac yn feddiannol ar ryw allu rhyfedd; a pha faint mwy yw yr Hwn sydd wedi rhoddi y gallu hwn i ddyn!

Ond y peth nesaf yw myned i'r llong, er myned dros y Culfor Gwyddelig. Yr oedd yn noswaith fraf, ac yn hyfryd ar y dwr. Yr oeddwn yn Cork am naw boreu dranoeth, ac yn bwyta fy moreubryd yn mhlith y *Paddies*. Mae yn Cork 80,000 o bobl, o'r rhai y mae 75,000 yn Babyddion; hefyd, mae yno 48,000 o heddgeidwaid a milwyr. Yn Swydd Cork y mae 1,100 o wallgofion, y rhan fwyaf o'r rhai ydynt felly o herwydd yfed gormod o *whisky*.

Ar ol boreubryd cymmerais gerbyd, ac allan a mi am un filldir ar bymtheg i'r wlad. Mae yma wlad ardderchog, ond nid oes ond y peth nesaf i ddim o lafur yn cael ei godi yma: tir pori ydoedd i gyd, a gallaswn I feddwl nad oedd yno ddim agos digon o anifeiliaid ar y ddaear i ateb y tir oedd yno. Dangosai y gyrwr i mi fferm ag oedd yn segur er ys saith mlynedd. Holy Hill oedd enw y fferm, ac yr oedd yn 300 o erwi o dir, yn ol £1 yr erw. Ond am i'r deiliad fethu talu y rhent, gwerthodd y tir-arglwydd ef i fyny; ac oddiar hyny mae y fferm yn segur. Gallaswn I feddwl fod y tir yn rhad iawn am £1 yr erw. Mae y dyn yn awr yn derbyn ei £1 yr wythnos oddiwrth y Cynghrair Tirol, ac nid oes neb yn meddwl am gymmeryd y fferm. Mae eisieu mwy o'r yspryd hwn yn ein plith ni, fel Cymry, yn enwedig yn Sir Aberteifi. Gwelwn fod y Gwyddelod yn hynod *drue* i'w gilydd.

Bum ar ben hen gastell yno a adeiladesid yn y flwyddyn 1446; yr oedd yn hen adeilad ardderchog. Ar y ffordd i'r castell yr oedd ffynnon o ddwfr glân a berchid yn fawr gan y bobl. Gelwid hi yr Holy Well, ac yr oedd wedi ei chyssegru gan Sant Patrick. Rhedai y dwfr o hon drwy bib, a chan y cai pawb yfed o honi, yfais inau o'r dwfr sanctaidd.

Wedi dychwelyd i'r dref, ês i weled y *cathedral*: ac O! y fath olygfa ardderchog a'r fath gelfyddyd uchel oedd yno! Mae fy iaith yn rhy annigonol a'm synwyr yn rhy wan i osod ar bapyr ddarluniad o'r pethau oeddynt yno. Yr oedd yno lawer o ddynion yn dyfod i fewn i dywallt eu gweddiau o flaen eu delwau, ac yr oeddynt yn hynod o ddiwiol hefyd, debygwn I. Mewn un man yno yr oedd Mair y Forwyn, ac yr wyf yn meddwl, os yw hi yn y nefoedd, nad yw hi ddim yn edrych yn well yno nag yw hi yn y fan hon. Ar ei braich yr oedd y baban-ddûw, a thusw o flodau cochion yn ei law fach, a'r rhai hyny newydd eu dodi debygwn. Denai hen ac ieuanc, tlawd a chyfoethog, i arllwys eu gweddiau o flaen Mair a'r baban-ddûw. Nid yw yr Hen Dy Cwrdd, Aberdar, ond tlawd iawn yn ngwyneb yr ardderchogrwydd mawr sydd yma; ond er y cwbl, byddai yn well genyf wrando ar weddi Mr. Jones yn yr Hen Dy Cwrdd nag edrych ar holl ddelwau cerfiedig eglwys y Pabyddion.

Am chwech o'r gloch un prydnawn ês i weled y *Lakes of Killarney*, y rhai ydynt tua 70 o filldiroedd o Cork. Yr oeddwn yn myned am filldiroedd drwy ran dda o'r wlad, ond nid oedd ond y nesaf peth i ddim o lafur i'w weled. Ymddengys i mi mai dynion diog a mochyn-

llyd iawn sydd yn byw yma. Nid oes yma un ymdrech i fyw, ond ei chymmeryd hi fel y delo. Mae yma lawer iawn yn byw ar fegian yn unig, ac os na roddwch iddynt, y maent fel llew yn rhuo wrth droi yn ol oddiwrthych. Cyrhaeddais Orsaf Killarney am naw o'r gloch yn yr hwyr. Lle hynod o ddrud i aros ynddo yw hwn. Mae y llynoedd yn attyniad i lawer iawn o ymwelwyr, ar y rhai yr ymddybyna y lle bach hwn. Mae yma lawer o fynyddoedd oddiamgylch, a'r rhai hyny yn gerryg noethion, ac mae yma lawer o dir yn debyg i'r tir sydd o amgylch Tregaron, yn Sir Aberteifi—tir mawnog a chleiog. Gwelir yma lawer o fawn wedi ei dori a hen dai á gwal bridd a tho gwellt iddynt, yr un fath á hen dai bach Sir Aberteifi. Nid wyf yn gallu gweled fod dim mwy o achos gan y Gwyddel i rwgnach nag sydd gan yr hen Gymro; ond ar yr un pryd yr wyf fi yn hollol gydfyned ag ef: nid oes a fyno y Sais â'i wlad ef.

Boreu tranoeth cymmerais gerbyd etto i fyned i ben uchaf y llynoedd. Yr oedd genym 13 milldir i fyned yno—wyth gyda'r cerbyd a phump ar ol gadael y cerbyd i gerdded dros y mynyddoedd mwyaf cerrygog a welais erioed—dim ond cerryg noethion i'w gweled, a degau o eifr, ond nis gwn I pa fodd yr oeddynt yn byw yno. Yr oedd y mynyddoedd yn uchel iawn, ac ymddangosai y rhan hon o'r wlad yn dlawd: llawer—menywod troednoeth gan mwyaf—yn begian. Ymddengys fod gan bob ty bach sydd yma ar odreu'r mynyddoedd le i gadw buwch, ac fod pob ty yn llawn o blant bychain. Bum yn yfed llaeth mewn un ty a gynnwysai ddeg o blant bychain—naw o ferched ac un bachgen. Nis gwn I pa fodd yr oeddynt yn gallu cael tamaid i bob un. Gwelais un fechan yno â chwlff o fara yn unig yn ei llaw fach; er hyny, edrychai yn ddedwydd wrth ei fwyta. Mae eisieu i lawer o wragedd Cwm y Rhondda fyned yno i ddysgu byw yn gynnil. Yr oedd yn y ty a nodwyd hen wraig 80 mlwydd oed ag oedd heb fod o'r fan hono erioed; edrychai yn hollol ddedwydd ac iachus.

Dyma fi o'r diwedd wedi cyrhaedd y llynoedd, ac mae yn rhyfedd meddwl fod cymmaint á hyn o ddwfr yn nghanol y tir, ac mae manau yma tua 50 troedfedd o ddyfnder. Mae yma dri llyn, a'r un mwyaf a'r dwfr yn cuddio 5,000 o erwi o dir. Yr oedd yn hyfryd iawn i ddyfod i lawr mewn bad am 16 o filldiroedd ar y dwfr. Tyfai yno lawer o bob math o goed, ac yr oedd yn eglur na fu llaw dyn yn cyffwrdd á hwynt na'r ddaear erioed: gwaith natur oedd y cwbl. Ar lan y llyn isaf yr oedd palas mawr a hardd Arglwydd Penmare, yr hwn a roisai ffenestr fawr werth £5,000 i'r *cathedral* yn Killarney am i'r offeiriad wella ei ferch o glefyd trwm. Mae ffydd yn beth mawr, a charwn I yn rhyfedd gael rhyw ychydig o honi. Mae y bobl hyn i gyd yn credu mai Sant Patrick a laddodd y nadredd yn yr Iwerddon.

Tonypandy. JOHN JONES.

MAE y Parch. A. C. Almack, Bowes Park, wedi cyhoeddi fel un o "reolau bywyd" nad ydys i fynychu un gwasanaeth ond eiddo Eglwys Loegr.

LLAWLYFR YR ATHRAW,

At wasanaeth athrawon yr Ysgol Sul, gan y diweddar Barch. J. R. Williams, Nebo, Hirwaun. Ail argraffiad. Aberdar: Lloyd a'i Fab. 1890, *tdd.* 152. *Pris swllt.*

Y mae yn bleser mawr genym alw sylw athrawon ein Hysgolion Sul at y llyfr gwir ddefnyddiol hwn. Ni cheir ei debyg yn y Gymraeg, a gobeithiwn y sicrheir ef at wasanaeth pob Ysgol Sul yn ein henwad. Mae yr oes yn brysio'n gyflym rhag ei blaen, ac yr ydym yn awyddus i weled pob ymdrech yn cael ei wneuthur i gyfaddasu gwaith ein Hysgolion Sul at y gofynion newydd ydynt yn codi yn nghysgod y cyfnewidiadau. Cynnwysa y Llawlyfr bedair-ar-ddeg o bennodau, rhai o honynt yn rhagorol iawn—I. Yr Ysgol a'r oes. II. Codi athrawon. III. Y galluoedd meddyliol a'u dadblygiad. Dyma'r bennod fwyaf ddyddorol feallai yn y llyfr, ac ar yr un pryd yr un fwyaf anfoddhaol. Nid yw yr awdwr yn ymddahgos fel yn deall y termau a ddefnyddia, ac ymddengys gormod o agwedd Seisnig ar yr oll. Yn y rhan fwyaf o'r pennodau mae yn hynod naturiol a llithrig, ac fel yn ceisio dywedyd yr hyn mae yn feddwl mewn dull syml a dealladwy. Ceir yma lawer iawn sydd yn teilyngu sylw ein hathrawon ar Egwyddorion Addysgiaeth, y dull goreu o'i gyflwyno, &c., &c.

GWERS I'R YSGOL SUL.

Luc xxxiii. 1—12.

Rhana'r wers yn naturiol i ddwy ran, sef (1) 1—7 a (2) 8—12.

I. (1—7) 1. Malais. 2. Hunan-les. 3. Cydwybod.

1. *Malais.*—(1) Dwyn tystion *urddasol* (adnod 1).
   (2) Dwyn tystiolaethau *difrifol* (adnod 2).
   (3) Cynhyrfu *yspryd* y tystion (adnod 5).
2. *Hunanles.*—(1) Amheu y *diniwed* (adnod 3).
   (2) Gwrando cri *celwyddog*.
   (3) Ysgol dyledswydd (adnod 7).
3. *Cydwybod.*—Unplygrwydd ei thystiolaeth (adnod 4).

II. (8—12). Pedair calon.

1. Llawenydd calon *falch*; (1) Cael gweled yr Iesu; (2) Cael gweled yr Iesu; (3) Cael gweled Ei arwyddion (adnod 8).
2. Dygasedd sanctaidd calon *bur* (adnod 9).
3. Creulondeb calon *lidiog* (adnod 10, 11).
4. Gwagder cyfeillgarwch calon ddrwg (adnod 12).

Llawlyfr yr Athraw, tud. 120.

YMWELIAD A'R AMERIG.

(*Parhad.*)

Wrth edrych allan drwy'r ffenestr—*port-hole*, fel ei gelwir—sydd debyg i lygad ych, yr olygfa gyntaf a'n cyferfydd ydyw'r haul yn dawnsio ar y don, ac yn ein gwahodd i lawenhau gyda hi. Yn y pellder, gwelwn fryniau'r Iwerddon yn dysgleirio yn mhelydrau codiad haul. Golygfa ardderchog ydyw'r Ynys Werdd yn gorwedd ar fynwes y dyfnder fel plentyn ar fynwes ei fam. Fel yr ydym yn dynesu ati, canfyddwn ei meusydd toreithiog a'r ŷd melynwedd yn barod ir cryman. Hwyliwn gyda'r gororau hyd nes cyrhaedd Queenstown, lle y cymmerwn i fewn ymfudwyr a'r *Irish Mails*. Angorasom ryw awr gyferbyn â'r dref yn ngolwg harbwr Cork, un o'r mwyaf ardderchog a chysgodol, dywedir, yn y byd. Tra yn oedi yma daw amryw o'r Gwyddelod i fwrdd y llong yn dwyn ganddynt *shillalies*—ffon y Gwyddel, ac addurnau ereill wedi eu gwneuthur o dderwen ddu wedi tyfu yn y gors. Yr oedd y lodesi bochgoch yn llawn gwên, yn peru i'r ymfudwyr â'r pyrsau dyfnion brynu braidd yn erbyn eu hewyllys, ac am brisiau crog, a'r hen wrachod o fenywod yn eu gorfodi i brynu, rhag ofn y byddai iddynt gael eu rheibio ganddynt, os gomeddent, drwy arllwys allan ar eu penau felldithion annhraethadwy, y rhai nad yw gyfreithlawn i ddyn o'm proffes I eu hadrodd yn y man hwn, a'u dedfrydu i'r pwll diwaelod, os byddai hap iddynt ddianc y pwll â gwaelod iddo—y môr!—yr hyn oedd amheus, wrth gwrs, unwaith y byddai i'r hen wrachod eu henwi uwchben y pair! Os prynent, cawsent fendithion aneirif a digymhar Mair y Forwyn a holl seintiau y dyddiadur o Pedr i'r Pab! Gan fod dymuniadau da hyd y nod hen wrachod yn fwy cydnaws na'u dymuniadau drwg, gwnaeth pawb eu hymdrech i brynu rhywbeth, a dychwelasant hwythau i'r Ynys wedi eu boddio ar y cyfan, ac mewn tymher dda. Hwyliasom ninau ymaith, ac yn mhen ychydig oriau, rhoddasom ffarwel i dir y Paddy, a dyma'r gipolwg olaf a gawsom ar dir Ewrop yn ngolwg gostwng haul y nawfed o Awst. Y mae yn demtasiwn i ddweyd gair neu ddau yn y man hwn ar yr Iwerddon a'i chyflwr ar yr adeg bresenol, ond rhag i mi flino eich darllenwyr trwy oedi yn rhy hir ar fy nhaith, brysiaf yn fy mlaen, gan obeithio y ceir cyfleusdra i hyn wrth ddychwelyd, neu ar ryw adeg fwy priodol yn ystod y daith efallai.

Yn awr, dim ond "byd o ddyfroedd" yn mhob cyfeiriad. Digon annyddorol ac undonol (*monotonous*) mewn mwy nag un ystyr yw gweled dim ond tonau; ond y mae gwaeth sefyllfa a rhagolygon mwy digroesaw yn bod yn ystod mordaith! Tra yr oeddwn yn canmol fy hun fel mordwywr, ac yn barod i rwgnach yn erbyn Rhagluniaeth o herwydd diffyg amrywiaeth yn yr olygfa, dechreuais deimlo dipyn bach yn anhwylus nes peru i mi feddwl nad oeddwn etto wedi dianc yn hollol o grafanc y *mal-de-mer!* Yr oedd gormod o wirionedd yn yr hyn a spectes! Profiad newydd ac ofnadwy a ddyoddefais am yr

yspaid o'r ddwy noswaith a'r diwrnod nesaf! Rhyw deimlad rhyfedd ydyw seilwch y môr! Daw'r pylau ar draws dyn mor sydyn, fel mae yn rhaid rhuthro o'r golwg heb roddi y rhybudd lleiaf i neb, ac y mae yn rhaid i bawb gilio o'r ffordd, onide gwae iddynt! Y man goreu, dan yr amgylchiad, ydyw cornel tawel yn mhen ôl y llong—gadael dyn wrtho ei hun i syllu ar y dwfr, ac i fyfyrio ar ei ddyfnder! Pan y mae'r pwl ar ddyn, nid yw yn hidio un tipyn pa beth a ddaw o hono; cystal ganddo gael ei daflu dros y bwrdd a pheidio! Y mae y tu hwnt i bob desgrifiad, a thrugaredd nad yw yn gyffredinol yn para yn hir! Ac y mae dyn yn teimlo rhyw lawenydd rhyfedd pan y mae drosodd—yn debyg i'r esmwythder sydd yn canlyn tynu dant ag sydd wedi peru colli cysgu am nosweithiau. Y mae gwedd newydd ar bobpeth, ac yn benaf oll, y mae blas newydd ar fwyd. Dyna fwyta sydd yn awr! Fel pobl Sir Aberteifi yn amser y cynauaf ar y maes. Ati, fechgyn, herc a cham a naid am y goreu at y sucan a'r danteithion darparedig ereill! A bwytawyr annghymharol braidd ydy'r Americaniaid, ac yr wyf finau yn dylyn eu hesiampl yn o lew yn awr, er mwyn llanw i fyny y gagendor a achoswyd gan y seilwch! Ac nid rhyfedd fod genym stumog dda pan welom swm a moethusder y dysgleidiau ydynt wedi eu parotoi ar ein cyfer. Dyma enghraifft—un o lawer—o *menu* giniaw :—

Russian Caviare

Soups
Hare a la Couti and Jardiniere

Fish
Salmon a la Tartare with Cucumbers

Entrees
Roast Partridge with Bread Sauce, Calves feet a la Pascaline, Ox Tail au Gratin, Swectbreads a la Soubise

Joints—Roast
Sirloins and Ribs of Beef, Yorkshire Pudding, Loin of Pork with Apple Sauce, Quarters of Lamb with Mint Sauce, Goose a la Normandi
Salad—Celery and Tomatoes

Joints—Boiled
Leg of Mutton with Turnips and Caper Sauce, Stewed Breast of Veal a la Macedoine, Fowl a la Bechamel, Ox Tongue with Pureè of Cauliflower, Cold Corned Beef and Boiled Cumberland Ham

Vegetables
Fried Egg Plant, Spinach, Boiled Rice, Croquette Potatoes, Pureè of Sweet Potatoes, Plain Boiled Potatoes, Mashed Potatoes

Entremets
Swiss Apple Tart, Cranberry Pie, Gateaux a la Reine, Strawberry Jam Puffs, Italian Cream Plum Pudding, Sago Pudding

Dessert
Grapes, Pears, Oranges, Almonds and Raisins, Walnuts, Apples, Chestnuts

Cheese
Wiltshire, Cream, Stilton, Gorgonzola

Tea, Coffee, and Chocolate.

Fe fyddai'r *menu* yn berffaith fel erthygl ar Gelf Gogyddol, pe bai yn cynnwys rhyw ddwy *item* yn ychwaneg—cawl cenin, neu *Leek Soup a la Syr Watcyn*, ac *Ice Pudding a la Snowdon*—dwy ddysgl ag sydd yn wastad yn hulio ein gwlad ni yma yn L'erpwl ar Ddydd Gwyl Dewi Sant; ond digon tebyg mai nid Cymro oedd y darbodwr—*chief steward*—neu buasai yn sicr o ofalu am y danteithion annghymharol hyn. Ond er mor anmherffaith ydyw, rhyfedd ein bod yn fyw ar ol y fath loddest, onide? Cof genyf glywed stori am hen frawd pregethwrol Methodistaidd wedi cael gwahoddiad un tro i giniawa efo sewcier y gymmydogaeth. Ar ol terfynu, ceisiwyd ganddo dalu diolch, yr hyn a wnaeth fel y canlyn:—"Diolch i Ti, Arglwydd, am nad ydym yn cael ciniaw o'r fath hyn bob dydd, onide teimlem yn lled anhwylus!" Rhywbeth yn gyffelyb oeddwn inau yn deimlo weithiau ar ol gorphen ciniaw. Ond cofier, er hyny, ein bod am ddiwrnodau wedi gorfod ymprydio—yn erbyn ein hewyllys, digon gwir—a thrwy hyny, yn wancus a newynog. Nis gwn am ereill, ond yr oeddwn I yn cymmeryd y cwbl oll mewn ffydd yn y cogydd nad oedd yn rhoddi i ni gig blaidd dan enw oen, neu froga dan ryw enw peraidd Ffrengig! Ffydd hefyd yn ngallu rhagddarparol y prif stiward ei fod yn hen gyfarwydd à llu o rai gwancus, a'i fod—fel Joseph yn yr Aifft—wedi gosod digon yn ei ystor am y saith diwrnod newyn sydd o'n blaen.

Llwyd.

Y CWRDD BLYNYDDOL.

Cynnaliodd Cymdeithas Undodaidd Deheubarth Cymru ei chyrddau blynyddol eleni yn Nghapel-y-Fadfa ar ddyddiau Mercher a Iau, Mehefin 25ain a'r 26ain. Trodd yr hin allan yn ffafriol iawn, yr hyn oedd yn bwysig pan yr ystyriom nad oedd y capel yn ddigon eang i gynnwys y dorf a ddaeth yn nghyd o wahanol ranau y sir. Yr oedd y Parchn. Thomas, Pantydefaid; Jones, Aberdar; Jones, Llanbedr; Rees, Rhydygwin; Davies, Alltyplaca; Davies, Cefncoedycymmer; Evans, Cribin; Jones, Gellionen; James a Davies, Llandyssul; a'r Mri. Harris a Evans, Cefncoedycymmer, &c., yn bresenol. Dechreuwyd y gwasanaeth, nos Fercher, gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, yn ddifrifol iawn, ac yna, pregethodd y Parch. J. F. Jones, Gellionen, bregeth gynnwysfawr a swynol mewn llais clir oddiar 2 Cor. xii. rhan o'r 8fed adnod. Yna, dylynwyd ef gan y Parch. W. Rees, Rhydygwin, mewn pregeth synwyrol ar Efengyl Ioan iii. 3.

Dydd Iau, am ddeg, dechreuodd yr Hybarch T. Thomas y cwrdd, ac yna, pregethodd y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, oddiar Hebreaid xi., a'r adnod flaenaf. Yr oedd dylanwad y profiad chwerw y mae Mr. Jones wedi myned drwyddo yn ddiweddar yn ganfyddadwy yn mhob brawddeg o'i eiddo. Yna, cawsom y bregeth appwyntiedig gan y Parch. R. J. Jones, M.A. Ei destyn oedd Matthew vi. 24, "Ni

ellwch wasanaethu Duw a Mammon." Cafodd Mr. Jones wrandawiad astud yn ystod yr awr a phum' munyd gymmerodd i'w thraddodi. Pregeth nerthol a tharawiadol, yn cynnwys perlau lawer. Efallai y rhydd Mr. Jones i chwi, Mr. Gol., grynodeb o honi.

Yn y prydnawn cafwyd cynnadledd, gweinidog y lle yn y gadair. Yn absenoldeb—o herwydd afiechyd—y Parch. W. Parry, bu y Parch. J. H. Davies, Cefncoedycymmer, mor garedig a gwneyd sylwadau arweiniol ar y pwnc, sef "Crefydd a Gwleidyddiaeth." Gan fod y gwahanol benau yn ysgrifenedig gan Mr. Davies, efallai y ca ganiatad gan olygydd parchus yr Ymofynydd i'w gosod yn ein cylchgrawn er buddiant y darllenwyr. Yna, cododd y Parch. T. Thomas i fyny, a dywedodd fod dwy agwedd yn perthyn i grefydd—un a'i chyfeiriad at Dduw, "Car dy Dduw â'th holl galon," &c., a'r llall at ddyn, "Car dy gymmydog fel ti dy hun."

Dywedodd y Parch. W. Rees fod crefydd a gwleidyddiaeth yn sefyll ar wahanol sylfaenau, ond dymunai ddatgan ei farn y dylai pob dyn weithredu yn wleidyddol yn unol ag egwyddorion gwir grefydd.

Dywedodd yr Henadur Cadben Davies nad oedd yn bossibl i ddyn fod yn wleidyddwr da heb fod yn grefyddwr da, ac i'r gwrthwyneb. Yr oedd yn credu y dylai pawb gyflawnu pob gwaith politicaidd fel pe yn ymwybodol o bresenoldeb ei Greawdwr. Ar ol ychydig eiriau oddiwrth Mri. Jenkin Jones, Trafle, a Daniel Evans, Dolau-uchaf, terfynodd Mr. Jones, Aberdar, y gynnadledd trwy wneuthur sylwadau da ar y pwnc. Ar ol i'r gweinidog derfynu y cwrdd trwy weddi, cynnaliodd Undeb Gweinidogion Sir Aberteifi gyfarfod er ystyried awgrymiadau eu brodyr o Loegr mewn cyssylltiad â threfniant eglwysig. Penderfynwyd cynnal cyfarfod neillduol yn Nghwrtnewydd yn mis Awst, er ail ystyried yr awgrymiadau uchod.

Yn yr hwyr, cynnaliwyd yr oedfa olaf o'r cyrddau trwy ddarllen a gweddio gan y Parch. J. F. Jones, Gellionen. Yna, pregethodd y Parch. J. H. Davies, Cefncoedycymmer, oddiar Luc xii., rhan o'r 27ain adnod. Dangosodd y pregethwr mewn modd effeithiol mai bod o help yw nodwedd uchaf ein bodolaeth. Gwasanaethu ereill yw gwasanaethn hunan yn yr ystyr oreu. Ar ei ol, pregethodd y Parch. J. Davies, Alltyplaca, bregeth dda iawn oddiar 1 Tim. vi. 12. Diweddglo hapus i'r pregethau oedd y cynghor i ymdrechu hardd-deg ymdrech y ffydd. Ar ol i'r gweinidog ddiolch i bawb a gymmerasant ran yn y cyrddau, terfynwyd trwy weddi. Yr oedd ein cyrddau yn llwyddiannus yn mhob ystyr, nifer y pregethwyr yn fawr, y pregethau yn rymus a dylanwadol, y cynnulliadau yn lluosog, a'r hinsawdd yn ddymunol. Boed bendith Duw yn disgyn ar yr had da nes y bydd yn dwyn cnwd toreithiog yn mywydau y gwrandawyr.

W. J. Davies.

"Mae'r dyn sy'n myned oriwaered," ebe un sydd wedi cwrdd siomedigaethau a cholledion, "yn cwrdd â llawer o bobl â'u trwynau yn troi i fyny."

NODYNAU GWASGAROG.

CYMMANFA GANU.

Dydd hir-dysgwyliedig ydoedd dydd Llun, Mai y 26ain, oblegyd ar y dydd hwn yr oedd Undeb Undodiaid Rhan Isaf Ceredigion yn bwriadu cynnal ei phummed gylchwyl gerddorol, a mawr oedd y parotoadau gyferbyn â hi. Tro Capel-y-Fadfa oedd hi eleni, a gwnaeth pobl garedig y Bwlch yn dda yn mhob ystyr. O herwydd fod y capel yn rhy fychan i'r dorf ddysgwyliedig, penderfynodd pwyllgor y Bwlch gynnal yr wyl mewn gardd eang gyferbyn â'r capel, a neillduwyd Mri. Thomas y Fadfa, Jones Rhydysais, a Thomas, Greengrove, i ofalu am drefnu y *stage*, &c., yn barod. Iawn yw dweyd y darfu iddynt gyflawnu eu rhan hwy yn dda. Felly, diwrnod teg ydoedd yr unig beth angenrheidiol er llwyddiant yr wyl, oblegyd am y cantorion, un ac oll, yr oeddent wedi gweithio yn galed am fisoedd, a choronwyd eu llafur â llwyddiant. Yr oedd ereill yn edrych yn mlaen at y dydd hwn gyda dyddordeb neillduol, oblegyd pan y byddai yr Undodiaid yn dathlu eu gwyl gerddorol yn y Bwlch, tybid y buasai y dydd hwn yn un ffodus er gwerthu eiddo y gwrth-ddegymwr, W. Jones, Gelliaur; ac felly y bu. Yr oedd y Radicaliaid yn bwriadu cynnal *monstre meeting* yn y Gelliaur ar ddydd yr arwerthiad fel protest yn erbyn talu degwm i eglwys estronol, ond yn hyn fe'u siomwyd: ni allasent fod mewn dau fan yr un pryd; ond os mai *innings* y gwerthwyr oedd hi y tro hwn, pan ddelo arwerthiadau y cadben ('does dim eisieu dweyd pa gadben, oblegyd dim ond un cadben gwrth-ddegymol sydd yn y rhan hon o'r sir) a Mr. Thomas o'r Fronwen, y flwyddyn nesaf, gofelir rhanu'r fyddin—un adran i ganu ac adran arall i areithio, &c. Er gwaethaf Hannah Siop Rhydowen a'i mintai fechan, fe werthwyd yn y Gelliaur. Daliwch ati, Mr. Jones: yr ydych wedi gwneuthur gwaith da, ac wedi graddio yn orfoleddus fel Radical.

Wel, at waith y dydd. Dechreuwyd am 1.30 o'r gloch, y Cadben Davies, Rhydowen, yn llywyddu. Dywedodd y cadben, mewn araeth fer a phwrpasol, fod caniadaeth gyssegredig yn fendithiol iawn, ac er nad oedd yn gerddor ei hun, etto, yr oedd wedi derbyn llesiant oddiwrth ganiadaeth mewn llawer oedfa er ysgafnhau baich bywyd. Yna galwodd ar yr arweinydd, y Parch. W. J. Davies, i arwain y dôn, "Llangoedmor." Dylynwyd hon gan "Dresden," "Antwerp," a Salm-don. Yna holodd y Parch. T. Thomas yn fanwl iawn ar y seithfed bennod o *Fanau Ffydd*. Yna canwyd "Plumstead" a "Stella." Araeth fer, danllyd, yn dylyn, yn llawn annogaeth i fyned yn uwch, uwch o hyd, gan ymberffeithio mewn caniadaeth a phob peth da, nes y byddai diwygiad cyffredinol yn cymmeryd lle. Y Parch. W. James, B.A., oedd y siaradwr hyawdl. Terfynwyd drwy ganu "Yr Arglwydd yw fy Mugail" (Dr. Parry), Miss Jones, Rhydysais, a'r Mri. Daniel Thomas, Edward Jones, a J. Thomas, Tynewydd, yn canu y pedwarawd.

Ar ol cael digonedd o dê a bara brith darparedig gan foneddigesau y Bwlch, dechreuwyd ar gyfarfod yr hwyr. Canodd y côr "Abertawe," "Pembroke," "Southbury," "Eaton," a "Lux Benigna." Yna rhoddodd yr arweinydd anerchiad ar "Ganiadaeth Gyssegredig." Yna datganodd y côr brif ddarn y dydd, sef "Mawl fo i Dduw," o'r *Elijah* (Mendelssohn). Fel y mae pob cerddor yn gwybod, dyma un o'r prif ddarnau cerddorol a gyfansoddwyd erioed. Y mae yn ddarn mor anhawdd ei ganu, fel y mae wedi bod yn destyn cystadleuaeth laweroedd o weithiau. *Test piece* ardderchog yw er profi gallu tonyddol y côr. Yr oeddem wedi gweithio mor galed nes yr oedd cred ddiysgog genym y cenid ef mewn amseriad cywir a thonyddiaeth weddol bur. Felly y bu, ac er nad oedd y *basses* yn berffaith yn un man, cafwyd canu gweddol dda. Yna diweddwyd y gymmanfa hon drwy ganu yr hen dôn, "Denton's Green," mewn hwyl ardderchog. Nid yw yn briodol i ni ddweyd dim mewn perthynas i ragoroldeb y canu, rhag ofn i'r cwestiwn hwn ddyfod gerbron:—"Who is your trumpeter?" Dymunwn yn y modd mwyaf gwresog ddiolch i'r arweinwyr canlynol am eu cefnogaeth:—Mri. T. Thomas, arweinydd y Bwlch; J. Jones, arweinydd y Llwyn; D. Thomas, arweinydd Pantdefaid; ac yn olaf, ond nid y lleiaf, Mr. Thomas, ysgolfeistr.

W. J. Davies.

CENADAETH TRWY'R LYTHYRFA.

Oni allem ni drosglwyddo y *Postal Mission* i Gymru? Onid oes yn Nghymru yn nghanol y twrw a'r amheuaeth presenol awydd i wybod beth ydyw syniadau yr Undodiaid? Oni ddylai cais gael ei wneuthur i osod y syniadau yma o flaen y cyhoedd? Frodyr yn y weinidogaeth, rhowch sylw i'r pwnc hwn. Edrychwch oni ellir trefnu rhyw fesurau i ledaenu ein syniadau ac i ddiwallu angenion ysprydol y Cymry. Beth ydyw Undodiaeth? A ydyw o ryw werth mewn cymhariaeth i'r cyfundrefnau ereill? Ar ba beth y mae ei hegwyddorion yn seiliedig? Dechreu da fyddai darllen y Beibl a'r Ymofynydd.

ARWEINYDD AR Y FFORDD.—*W. C. Bryant.*

Draw ar donau geirwon byd,
O Dad tirion,
Cadw ni dy blant bob pryd
Rhag peryglon;
O dan gysgod d' edyn plydd
Byth y byddom,
Dan dy ofal nos a dydd
Y gorphwysom.

Pan ddyrchafwn atat gri,
Arglwydd, gwrando,
D' iachawdwriaeth felus Di
Ini dyro.
Rhwng tymhestloedd moroedd mawr
Bydd yn Llywydd,
A than holl ofidiau'r llawr
Yn Ddyddanydd.

Atat, Arglwydd, ymneshawn,
Gwylia drosom;
Yn y byd gorthrymder gawn
Hyn a wyddom;
Rhai a geisiant a'u holl fryd
Ein camarwain;
I dy ofal, Dad y byd,
Rhown ein hunain.

T. C. U.

Y GYMRAEG YN PENDRONI.

Y mae yn syndod gynnifer o ffyrdd sydd i lygru a dinystrio iaith. Fe'i llygrir gan rai trwy ei Seisnigo mewn modd *unjustifiable* ac *unreasonable*, a chan ereill yn llawn cymmaint trwy fathu geiriau salw na fydd neb yn eu deall. Prif ddyben iaith onide ydyw trosglwyddo meddyliau, ac os na wna hyny, ni fydd yn ateb ei dyben. Bydd yn llawn cystal dywedyd abracadabra a dywedyd rhywbeth arall oni ddeallir ni. Mae rhyw John Jones yn y *Faner*, yn ddiweddar, yn ceisio genym wrth fyned i'r siop i ofyn am "gyffaeth aeron" yn lle *marmalade*. Llestraid swllt o abracadabra os gwelwch yn dda. Be' well fyddwn? A gawn ni beth ydy' ni am? Os am neisied *(handkerchief)*, fe ddylid gofyn am "llaw foled," am abracadabra; os am *fatchen*, rhaid gofyn am "babwyryn" neu "fagdan." Un ffordd effeithiol i lygru y Gymraeg yw ei Dictionaryeiddio.

Q. Q.

HOLIADAU.

Paham na fyddai y môr yn llanw mwy, gyda chymmaint o ddwfr yn rhedeg iddo o bob man? Paham y mae gan ddyn gwrryw fronau, a hwythau heb fod yn ateb un pwrpas iddo yn holl *hanes* ei fywyd? Ai tebyg eu bod fel y ffosyllau *(fossils)* yn y graig yn awgrymiadol o fodolaeth wahanol iawn i'r un presenol? A ydyw y llygad dynol yn dirywio? Paham yr ydym yn gweled cymmaint o rai ieuainc—rhai ieuainc iawn, y dyddiau hyn, yn gwisgo spectol? Ai gwir yw yr hyn a ddywed rhai, fod plant yn llawer gwaeth heddyw na phan oedd rhai

o honom ni yn blant? Pa ddyben ydyw clychau eglwys heddyw heblaw cadw swn? Mae gan bob un ei gloc gartref yn awr. Paham y costir cymmaint at glochdai eglwysi? Q. Q.

CREDO BOBLOGAIDD.

1. Yr wyf yn credu yn y gynnulleidfa fwyaf.
2. Yr wyf yn credu yn yr enwad lluosocaf.
3. Yr wyf yn credu yn y poblogrwydd helaethaf.
4. Yr wyf yn credu yn yr addoldy harddaf.
5. Yr wyf yn credu yn y dyn dysgedicaf.
6. Yr wyf yn credu yn yr areithydd ffraethaf.
7. Yr wyf yn credu yn yr eglwys ddwg i mi fwyaf o elw.

Ddarllenydd! ai dyma ydyw dy gredo di?

Y mae rhai o ddarllenwyr Yr Ymofynydd yn cofio am Als Pencae. Hen Undodiad goleuedig oedd Als, Undodiad o argyhoeddiad, ac un a ddyoddefodd lawer o wawd a dirmyg o bryd i bryd ar law rhai a dybient eu hunain yn uniawngred. Yr oedd ganddi hi ddigon o'r *moral back bone*, fodd bynag—yr asgwrn moesol—i ddal ei thir yn wyneb hyn oll. Ebe un o'r iawn ffydd wrthi un tro, "Yn ddios, ddiamheu, y mae Dr. Priestley yn uffern, y mae Belsham yn uffern, y mae Channing yn uffern; ac uffern yw lle a chyrchfan pawb o gyffelyb syniadau." "Wel," ebe yr hen wraig, "os felly mae, waeth geny' ddweyd e na'i feddwl e; byddai'n well geny' fyn'd i uffern atyn' nhw na myn'd i'r nefoedd at John Calvin, ac ereill, ag y mae yn hawddach ganddynt i losgi dynion yn fyw nag ateb eu hymresymiadau."

Hen bobl oedd Sion a Malen, ac yn byw yn mhentref Cwrtnewydd. Jeri'r teiliwr sydd yn adrodd y stori. Arferai Sion fyned i hol maidd bob dydd i Brynllefrith, at Mr. Lloyd. Yr oedd y gair fod Malen y fenyw salwaf yn y gymmydogaeth, ac ystyrid Mrs. Lloyd yn fenyw brydferth iawn. Un dydd, gofynodd Mr. Lloyd i Sion pa un ai Malen ynte Mrs. Lloyd oedd y lanaf neu brydferthaf. "Wel," ebe Sion, "mae hwna yn gwestiwn pwysig nad ellir dim o'i ateb yn benderfynol ar unwaith. Rhaid eu cael at eu gilydd." "Wel, dewch â Malen gyda'ch yfory." Felly y gwnaed. Aeth Sion a Malen i fyny gyda'u gilydd i Brynllefrith dranoeth. Wedi ychydig hamdden, ceisiodd Sion gan Mrs. Lloyd i roi tro o amgylch yr ystafell. Rhoddodd Mrs. Lloyd dro o amgylch yr ystafell. "Rhowch chwithau dro yr un modd," ebe Sion wrth Malen. Rhoddodd Malen hithau dro yr un modd. "Wel, 'nawr, Sion," ebe Mr. Lloyd, "beth yw eich barn chi? Pa un ai Malen neu Mrs. Lloyd sy lana?" "Wel," ebe Sion, "a chymmeryd

pob peth i ystyriaeth, mae Malen yn curo o ddigon !" "Hir y parhao yr olwg, Sion," ebe Mr. Lloyd.

Ar adroddiad y Parch. J. Davies, Alltyplaca. Q. Q.

Manion ac Hanesion.

LLANDYSSUL.—Mehefin 8, cynnaliwyd wasanaeth cerddorol yma gan y Côr Undebol dan arweiniad gweinidog y Graig. Canwyd detholion o raglen Cymmanfa Gerddorol y Bwlch. Canodd y cor "Mawl o i Dduw" yn well nag yn y Bwlch. Gwnaeth y Basses iawn yma am y diffyg yn y Bwlch. Yr oeddem yn eu teimlo yn agor "Ond yr Iôr" fel "Teirw Basan," ac yn dal y *sustaining note* yn hollol lisigl. Canwyd yr anthem yn swynol awn, Mrs. Thomas, Miss Jones, a'r Mri. Thomas yn canu y pedwarawd; ac ad-oddodd y Misses Jones, Bwlch Gelliawr Rhydyfennau, a Master Simon Jones yn rdderchog. Llywyddodd Cadben Davies yn ddeheuig. Yr oedd y capel yn orlawn.

LLWYNRHYDOWEN.—Y mae y Pwyllgor Gweithredol a bennodwyd yma dan lyw-yddiaeth Mrs. Jones, Gellifaharen, yn gweithio o ddifrif. Y maent wedi dwyn i ben y gwaith o baentio, &c., Hen Gapel y Llwyn, a bwriedir adeiladu lle i'r elor. Nos Sul, Gorphenaf 13, bu yr Ysgol yn ateb, Mr. J. R. Thomas yn arholi. Ewch rhagoch, gyfeillion anwyl, gyda'r gwaith da. O hyn allan, yr ydym yn bwriadu cynnal un gwasanaeth y mis yn yr Hen Gapel, sef yr un am 6 o'r gloch.

Gwreiddiol a tharawiadol iawn oedd eiriau Father Taylor. Paham nad allem ni gael tipyn o hanes Father Taylor yn YR YMOFYNYDD? Nid yn aml y darlun-iwyd caracter o'i fath hyd y nod yn YR YMOFYNYDD. Ond dyma fel y dywedai: "O na, wnaiff hi ddim o'r tro i yru Emerson i uffern, canys cynted yr elai yno fe newidiai y *climate*, a cheid gweled *side* yr *emigration* yn cymmeryd y cyfeir-iad tuag yno."

Hen wr oedd Jeri'r teilwr yn meddu parch mawr at Dafydd Llwyd a Dafis Castell Hywel, ond gyda John James yr oedd ei syniadau. Adroddai trwy'r dydd hystoriau am y tri wyr hyn. Ond pwnc arall sydd genym yn awr. Ebe Meistres Davies, Tancoed, wrth Jeri, "A ydych chi yn tybied y byddwn ni yn adwaen ein teilydd yn y nefoedd, Jeri?" Dyna gwestiwn pwysig, na wn I ddim am dano; ond ni gawn wybod pan elo ni adref.—Q. Q.

Mae *insuro* bywydau plant bach yn beth cyffredin iawn, ac y mae peru marwolaeth anamserol y cyfryw blant yn beth cyffredin hefyd. Nid annhebyg na fydd ymdrech i gael ei gwneyd i rwystro peth fel hyn trwy ddeddf wladol; os na ellir modd arall, rhaid rhwystro yr *insurance*.

I'R LLWYNOG.

Myn borthiant o'n buarthau—yn y nos,
Yn ŵyn, ieir, a gwyddau;
Rhed â phob lledrad i'w ffau,
Llwynog cestog llawn castiau.
—*Eisteddfod Aberffraw*, 1849.

Y WENOL.

Taith y wenol yw'r olaf—o'r adar
A edy fro Gauaf;
Fe lunia 'i thaith y flaenaf,
Yn deyrn hoen aderyn Haf.
—*Meiriadog*.

CEFNCOED.—Dydd Llun, Gorph. 28, aeth aelodau Ysgol Sul yr Hen-dy-cwrdd, tua 100 mewn nifer, am bleserdaith mewn cerbydau i ymyl y gwaith dwr mawr y mae *Corporation* Caerdydd yn adeiladu yn Nghwm Taf Fawr. Cychwynwyd o'r Cefn oddeutu 12 o'r gloch, ac wedi cyrhaedd pen y daith yr oedd y ddau gyfaill parod, Mr. Rees Jones, y saer, a Mr. Lewis Evans, y gof (brodor yw y naill o ardal Aberaeron, a'r llall o ardal Cwrtnewydd), wedi gwneyd y trefniadau ar gyfer ein dyfodiad, ac wedi cael benthyg y *Mission Room* gan berchenogion y gwaith, lle y treuliasom brydnawn wrth ein bodd. Yr oedd y daith trwy y cwm, ar y fath hin ddymunol, yn bleserus dros ben, a darfu i ni gyd fwynhau ein hunain yn ardderchog.

"Ni ddylech gymmeryd dim na sydd yn cytuno â chwi," ebe'r meddyg wrtho. "Pe buaswn yn wastad wedi dylyn y rheol hono, Hetty," ebe yntau wrth ei wraig, "beth ddaethai o honoch chwi?"

RHODD MAM.—Dywedir fod yr argraff-iad newydd o'r llyfryn bychan hwn, sydd wedi gwasanaethu plant y Methodistiaid

mor hir, fel pluen yn dangos cyfeiriad y gwynt, Mae y gair 'Uffern' wedi ei adael allan o hono. Beth nesaf, tybed? Carem air oddiwrth Mr. Spurgeon.

Marwgofion.

Mai 16, yn 7 mlwydd oed, bu farw Netta, anwyl ferch Dafydd a Margaret Bowen, Trebanos. Hebryngwyd ei gweddillion marwol y Llun canlynol i fynwent henafol Gellionen, pryd y gweinyddwyd ar yr achlysur gan y gweinidog, y Parch. J. Fisher Jones. Bydded i'w theulu galarus sychu eu dagrau yn y gobaith o'i gweled y tu hwnt i'r llen.

Os marw wnaeth eich Netta fach,
Gan droi eich gwedd yn drist,
Adgyfyd etto'n fyw ac iach
I deyrnas Dduw a'i Grist.

Mai 18, Elizabeth Davies, merch fechan Mr. a Mrs. Davies, Frondes, Llandyssul, yn 7 mlwydd oed. Yr oedd Elizabeth yn aelod o Ysgol Sul y Bwlch. Adroddodd yn gyhoeddus rager nag unwaith, ac yn naturiol, yr oeddem yn dysgwyl y byddai yn tyfu i fyny i fod yn aelod selog, ond nid ewyllys yr Arglwydd oedd hyn. Dyoddefodd am beth amser cyn ei marwolaeth. Daeth torf fawr i'r angladd, a gwasanaethwyd yn y tŷ ac yn y capel gan y Parch. W. J. Davies, a gosodwyd gweddillion marwol y fechan yn nghladdfa brydferth y Bwlch. Rieni anwyl, na wylwch yn ormodol, oblegyd "nid marw, ond ymfudo wnaeth" i rodfeydd gardd yr Arglwydd.

Dydd Sadwrn, Gorphenaf 5, yn bedwar mis oed, Elizabeth Davies, plentyn Mr. a Mrs. Davies, Fronlas, Cefn-Shon-Cwilt. Yr oedd y baban yn berffaith iach nes ei buchfrechwyd. Yr oedd nifer fawr o bobl yn yr angladd. Claddwyd dydd Iau, Gorphenaf 8, pan y gwasanaethodd y Parch. W. J. Davies yn y tŷ ac yn Nghapel-y-Fadfa. Teyrnas y nefoedd yw eiddo y rhai bychain, medd yr Iesu.

Dydd Llun, Mehefin 2, Elizabeth Lloyd, plentyn Mr. a Mrs. Lloyd, Blaenwaun, Llanfihangel-ar-Arth, yn 22 mis oed. Dydd Iau canlynol, hebryngwyd gweddillion marwol yr un fechan i gladdfa newydd Llwynrhydowen, pan y gwasanaethodd y Parch. W. J. Davies ar yr achlysur. Bydded i eiriau yr Iesu, "Eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd," fod yn gysur i'r rhieni.

Mehefin 10, bu farw Mr. David Jones, Talgarreg, yn 78 oed. Hen wr tawel, dirodres, a chymmwynasgar ydoedd yr ymadawedig—dymunol i bawb. Bu yn aelod cysson yn Nghapel-y-Fadfa am flynyddau lawer. Cafodd y fraint o weled ei deulu yn tyfu i fyny i fod yn aelodau defnyddiol mewn cymdeithas. Y dydd Gwener canlynol, cafodd yr ymadawedig gynhebrwng lluosog pan y cludwyd yr hyn oedd farwol o hono i gladdfa Bwlchyfadfa, gweinidog y lle yn gwasanaethu yn y tŷ, ac yn y capel. Gwyn eu byd y tangnefeddus.

Dydd Mercher, Mehefin 18, Mr. David Thomas, Rhydwen, yn 67 oed. Yr oedd Mr. Thomas yn ddyn tawel, yn ddarllenwr mawr, ac y mae yn debyg ei fod wedi darllen Llyfr y Pregethwr, ei hoff lyfr, drosodd a throsodd. Ychydig cyn ei farwolaeth, dywedodd wrth yr ysgrifedydd fod Llyfr y Pregethwr yn un o'r rhai mwyaf mawreddog a adwaenai. Bu Mr. Thomas yn ddiwyd iawn drwy ei oes. Cododd deulu lluosog i fyny, aelodau o'r hwn ydynt erbyn heddyw yn ddefnyddiol iawn mewn cymdeithas, ac yn addurn i'w proffes. Un o'i feibion, Mr. Thomas Thomas, Greengrove, yw arweinydd y canu yn y Bwlch, tra y mae mab arall, Mr. J. R. Thomas, Ysgolfeistr, Pontsian, yn ysgrifenydd y gynnullfeidfa, ac yn ddyn ieuanc parod i gynnorthwyo bob amser mewn cyssylltiad â phob peth a berthyn i lwyddiant Eglwysi Llwynrhydowen a'r Bwlch. Daeth torf fawr i'r angladd. Yn Nhgapel y Bwlch, darllenodd y Parch. Mr. Davies (A.), Pisgah; yna, pregethodd y Parch. W. J. Davies, y gweinidog, oddiar Pregethwr xii. 13, a diweddwyd trwy weddi ar lan y bedd gan yr Hybarch T. Thomas. Bydded i'r weddw a'r plant oll sugno eu cysur oddiwrth Dad y Tadau.

GEORGE'S POPULAR REMEDIES.

AT Y CYHOEDD.

Erfynir arnom yn fynych i roddi hyspysrwydd o'r holl Ddarpariaethau Meddyginiaethol a wneir genym. Wele yn canlyn *list* o'r prif rai :—

GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS. Y mae y Feddyginiaeth hon yn rhy adnabyddus drwy yr holl fyd i alw am ragor o hyspysrwydd yma. Digon yw dweyd fod " Dr Quain's Dictionary of Medicine "—y llyfr meddygol pwysicaf a ddaeth allan o'r wasg erioed, heddyw, yn cydnabod mai yr egwyddor fawr ar *yr hon y mae y Feddyginiaeth uchod yn sylfaenedig*, yw yr unig wir egwyddor yn ol pa un y dylid trin holl ddolurian perthynol i'r Ymysgaroedd, yr Arenau, y Cylla, a'r Afu Yr ydym yn gwneyd y ffaith bwysig hon yn hyspys fel ag i wneyd pawb sydd yn defnyddio y Peleni bydenwog hyn deimlo yn sier eu bod yn chwilio am wellhad ar linellau ag y mae perffeithrwydd Celfyddyd Feddygol yr oes hon yn gymmeradwyo a'i orchymyn.

—o—

GEORGE'S AMERICAN RHEUMATIC LINIMENT, neu *"American Marvel."* Hon ydyw y Ddarpariaeth fwyaf poblogaidd yn yr holl fyd at y Gwynegon, Lumbago, Sciatica, Cymalau Stiff, Cramp, Stiff Joints, Chwyddiadau, Clefisiau, Ysigiadau, Dolur y Gwdff, Quinsy, Gwendid yn yr Aelodau, Inflammation, a holl boenau *ileol* ereill.—*Mewn poteli*, 1/9 *a* 1/1½ *yr un. Drwy y Post*, 2/- *a* 1/4.

—o—

GEORGE'S STOMACH AND LIVER TONIC.—Yr ydym yn gwarantu y gwna y Feddyginiaeth hon Awchu y Cylla at Fwyd, Cynnorthwyo Treuliad Bwyd, Puro y Gwaed, Cryfhau'r Gewynau, Sirioli'r Ysbrydoedd, Addfedu ac Adllwis pob Hylif Afiach a Llysnafeddog o'r Corff.—*Mewn poteli*, 2/9 *yr un. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

GEORGE'S TIC MIXTURE.—Symmuda hwn y dolur a elwir Tic, (neu Tictolorw) a'r Rheums mewn ychydig oriau.—*Mewn poteli*, 1/9 *a* 2/9 *yr un. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

GEORGE'S CAMBRIAN TONIC VOICE LOZENGES.—Nid oes eisieu ond enwi cefnogwyr y *Voice Lozenges* hyn er profi mai hwy sydd ar y blaen at Gryfhau a Pherffeithio y llais. Dyma ychydig o honynt :—Madame Edith Wynne, Dr. Parry, Owen Alaw, Eos Morlais, Llew Llwyfo, Jas. Sauvage, D. Jenkins, Mus. Bac., Jno. Thomas, Caradog, &c, &c.. *Pris* 6ch. a 1/-. *Gellir cael y Bloch* 1/. *gyda'r Post am* 1/2 *mewn stamps.*

—o—

GEORGE'S CURE FOR BRONCHITIS.—Meddyginiaeth effeithiol at wella " Bronchitis." *Mewn poteli*, 2/6 *yr un. Nis gellir danfon hwn gyda'r Post.*

—o—

"FLATULINE."—Meddyginiaeth hynod effeithiol er symmud gwynt o'r cylla a'r ymysgaroedd. *Pris*, 1/1½ *a* 2/9 *y botel. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

"ASTHMALINE."—Darpariaeth gwir werthfawr at ddiffyg anadl. *Pris* 1/9 *a* 2/9 *y botel. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

"DR. CRYNANT'S PLASTER." (Established 40 Years.) Hwn ydyw y Plaster mwyaf hynod yr oes at wella Ysigiadau, Briwiau, Toriad Asgwrn, Chwyddiadau, Gwendid yr Aelodau, Lumbago, &c. *Mewn Packets*, 7½c. *a* 1/1½ *yr un. Fe'u danfonir drwy y Post am* 1/3 *mewn stamps.*

PERCHENOG :—

J. E. GEORGE, M.R.P.S.,

Hirwain.


INTERESTING FACTS FOR INVALIDS.
The experience of twenty years proves that no medicine for the cure of all the Disorders of the BOWELS, LIVER, KIDNEYS, and STOMACH will bear comparison with GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS.
It is an important fact that these Remedies are patronised and highly recommended by EMINENT MEDICAL MEN, both in this country and America.
Many of the wealthy of the land give their time and money to supplying the afflicted poor in their neighbourhoods with these Pills. This fact speaks volumes in favour of these Pills.
Were all the Testimonials that have been received in favour of these Remedies printed, they would fill a volume of over a THOUSAND PAGES of the ordinary size.
There is not a civilized nation under the sun that has not experienced the HEALING VIRTUES of these Remedies. For many years they have held the FIRST PLACE in the world as a remedy for the above disorders.
It is the opinion of those best able to judge that a discovery of greater importance to suffering humanity than GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS has not been made in this century.
THOUSANDS have been cured by these Pills, and TENS OF THOUSANDS relieved of their pains; and many who have been pronounced hopeless have been THOROUGHLY RESTORED TO HEALTH by their use.
Sold in Boxes, 1/1½ and 2/9 (by Post, 1/3 and 2/10) each, by all respectable Chemists.
IMPORTANT CAUTION.—BEWARE OF SPURIOUS IMITATIONS.